GIG CYMRU NHS WALES

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

GIG

# Gofal Iechyd Parhaus y GIG ar gyfer Oedolion yng Nghymru

Taflen Gwybodaeth i'r Cyhoedd

## Beth yw Gofal Iechyd Parhaus y GIG?

Pecyn o wasanaethau sy’n cael eu trefnu a’u hariannu gan y GIG yn unig yw gofal iechyd parhaus. Darperir y gwasanaethau hyn i bobl yr aseswyd fod ganddynt brif anghenion iechyd  (caiff hynny ei esbonio yn nes ymlaen). Gallwch gael gofal iechyd parhaus mewn unrhyw leoliad, gan gynnwys yn eich cartref eich hun neu mewn cartref gofal.

Yn eich cartref eich hun, golyga hyn y bydd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn talu am eich gofal iechyd (er enghraifft, gwasanaethau nyrs gymunedol neu therapydd arbenigol) a’ch gofal cymdeithasol, ond nid yw hyn yn cynnwys costau bwyd, llety neu gymorth cyffredinol.

Os ydych mewn cartref gofal, ac yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus, bydd y GIG yn talu ffioedd eich cartref gofal, gan gynnwys eich bwyd a’ch llety.

Caiff gofal iechyd parhaus ei ariannu gan y GIG, yn wahanol i’r help a gewch gan y gwasanaethau cymdeithasol sydd weithiau’n codi tâl, yn dibynnu ar eich incwm, eich cynilion a’ch asedau cyfalaf.

## Pwy sy'n gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG ?

Os bydd asesiadau amryw o weithwyr proffesiynol yn dangos fod gennych brif anghenion iechyd, dylech fod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus. Nid yw'n dibynnu ar gyflwr neu afiechyd penodol unigolyn nac ar y diagnosis a gafodd. Nid yw ychwaith yn dibynnu ar y sawl sy'n rhoi'r gofal nac ymhle y caiff ei ddarparu.

## Sut caiff fy mhrif anghenion iechyd eu hasesu?

Caiff eich prif anghenion iechyd eu hasesu drwy gymryd eich holl anghenion gofal i ystyriaeth o dan bedwar prif faes:

1. **Math** - mae hwn yn disgrifio'ch anghenion a'r math o anghenion sydd gennych ee anghenion corfforol, iechyd meddwl neu seicolegol. Mae hefyd yn disgrifio effaith eich anghenion arnoch chi a'r math o gymorth (ansawdd) sydd ei angen arnoch i reoli'ch anghenion.

2. **Dwysedd** - mae hwn yn disgrifio un neu fwy o anghenion (maint) a allai fod mor ddifrifol fel bod angen rhyw gymaint o ofal parhaus.

3. **Cymhlethdod** - mae hwn yn disgrifio'r modd y mae'r symptomau'n ymwneud â'i gilydd. Gallai hynny wneud y symptomau'n anodd i'w rheoli, a gallai fod angen mwy o sgil i fonitro'r symptomau, trin y cyflwr a/neu reoli'r gofal.

4. **Anwadalwch** - mae hwn yn disgrifio i ba raddau y mae anghenion rhywun yn anwadal a pha mor anodd yw rheoli'r anghenion hynny. Mae hefyd yn disgrifio lefel y risg i iechyd unigolyn oni chaiff y gofal priodol ei ddarparu'n gyflym.

## Pwy fydd yn cymryd rhan a phwy fydd yn penderfynu a wyf yn gymwys ai peidio?

Y GIG fydd yn penderfynu a ydych yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus. Bydd yn gweithio gyda'r awdurdod lleol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â'ch gofal drwy dîm amlddisgyblaethol. Bydd yn gwneud yn siŵr eich bod chi a'r sawl sy'n gofalu amdanoch yn rhan o'r broses.

Mae tîm amlddisgyblaethol yn cynnwys dau neu ragor o weithwyr proffesiynol sy'n gysylltiedig â'ch gofal a gallant fod o'r gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'n bosibl y bydd aelodau'r tîm yn cwrdd â chi ar wahân i wneud yr asesiad cyn i bawb gwrdd i lunio darlun cyflawn o'ch anghenion gofal drwy ddefnyddio'r broses Asesu Unedig.

## Oes rhaid i mi gytuno i'r asesiad gael ei wneud?

**Oes.** Dylid cael eich caniatâd cyn dechrau ar y broses asesu a chyn gwneud unrhyw benderfyniadau. I wneud yn siŵr fod

yr wybodaeth lawn gennych i gytuno i'r asesiad, bydd un o'r tîm amlddisgyblaethol (y cydgysylltydd gofal fel arfer) yn cwrdd â chi i esbonio'r broses ac i wneud yn siŵr fod gennych ddigon o wybodaeth i wneud eich penderfyniad. Dylai drafod Pecyn Cyfathrebu Cenedlaethol gofal iechyd parhaus gyda chi. Yn y pecyn cewch fanylion llawn am y broses asesu, pwy fydd yn cymryd rhan a sut y caiff canlyniadau eu cofnodi.

Pan fyddwch wedi rhoi eich caniatâd, cofnodir eich bod yn fodlon i'r asesiad gael ei wneud.

## Beth os byddaf yn gwrthod cael fy asesu neu'n rhoi fy nghaniatâd ac wedyn yn newid fy meddwl?

Os byddwch yn gwrthod rhoi caniatâd i gael eich asesu, golyga hyn na all y GIG fod yn gyfrifol am ddarparu'r gofal a thalu amdano. Serch hynny, bydd yn parhau i ddarparu gwasanaethau'r GIG pan fyddwch eu hangen ee nyrs ardal neu gyfraniad meddyg teulu. Mae'n bosibl y codir tâl arnoch am unrhyw wasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Mae croeso i chi newid eich meddwl ar unrhyw adeg. Os byddwch yn newid eich meddwl am gael eich asesu, bydd angen i ni gadw cofnod o'r rhesymau dros newid eich meddwl. Mae'n bosibl y gofynnir i

chi lofnodi ffurflen i ddangos mai eich penderfyniad chi yw hwn.

## Beth os bydda i'n gwrthod y pecyn gofal a gynigir gan y GIG, er fy mod yn gymwys i'w gael?

Os oedd yr asesiad yn dangos eich bod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus a chithau'n penderfynu nad ydych am ei dderbyn, golyga hyn na all y GIG fod yn gyfrifol am ddarparu a thalu am eich holl ofal.

Mae'n bosibl y gall y GIG a'r awdurdod lleol gyda'i gilydd (mewn pecyn gofal ar y cyd) fodloni'ch anghenion, ond efallai y codir tâl arnoch am rai o wasanaethau'r awdurdod lleol neu hyd yn oed y cyfan. Byddech yn yr un sefyllfa â phe baech wedi gwrthod cael eich asesu am ofal iechyd parhaus

## A fydd fy anghenion gofal yn cael eu hadolygu?

**Byddant.** Os gwelir eich bod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus, byddwch yn cymryd rhan mewn datblygu cynllun gofal sy'n dweud sut y caiff eich anghenion eu bodloni. Cyn pen 6 wythnos wedi i chi gael pecyn gofal iechyd parhaus, bydd aelod o dîm y GIG, ac eraill sy'n ymwneud â'ch gofal, yn trefnu i adolygu'ch anghenion a'r

gofal sydd ei angen arnoch. Byddwch yn cymryd rhan yn yr adolygiad hwn.

Gofynnir ichi am eich cydsyniad cyn dechrau'r broses adolygu. Ar y cyfan, dylid cynnal adolygiadau ymhen 6 wythnos, 3 mis ac yna bob blwyddyn neu ar gyfnodau eraill os ymddengys fod eich iechyd wedi newid yn sylweddol.

Wrth i'ch anghenion iechyd a gofal personol newid, bydd eich cydgysylltydd gofal yn trefnu cyfarfod rhwng gwahanol feysydd i ailasesu eich anghenion gofal a ph'un a ydych yn dal i fod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus. Gallai'r math o help a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnoch newid hefyd ac mae'n bosibl na fydd gennych angen iechyd sylfaenol mwyach. Os felly, dylai aelod o'r tîm amlddisgyblaethol drafod gyda chi beth yw'r newidiadau y mae angen eu gwneud i'ch cynllun gofal ac a fyddai'n ofynnol ichi wedyn gyfrannu at eich costau gofal ai peidio.

## Beth os nad wyf yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus y GIG?

Os ydych yn **mynd adre** a chithau heb fod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus ond bod gennych rai anghenion gofal serch hynny, bydd y gweithwyr cynllunio gofal yn penderfynu a oes angen pecyn iechyd a gofal cymdeithasol

ar y cyd arnoch. Mae'n bosibl y byddwch yn parhau i fedru cael amrywiaeth o wasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol i fodloni eich anghenion gofal os dyna sydd ei angen arnoch. Efallai y bydd rhaid i chi dalu am rywfaint o'r gofal a ddarperir gan y gwasanaethau cymdeithasol, neu hyd yn oed y cyfan ohono, er y bydd y GIG yn dal i ddarparu ar gyfer eich anghenion gofal iechyd.

Os oes angen i chi gael eich rhoi mewn **cartref gofal** a chithau heb fod yn gymwys ar gyfer gofal iechyd parhaus, yna gallech ddisgwyl cael:

- Gwasanaethau gofal iechyd gan y GIG (meddygon teulu, therapyddion a chyllid drwy Ofal Nyrsio a Ariennir – gweler isod).
- Gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan yr awdurdod lleol ar sail prawf modd.

Efallai y bydd angen i chi gael asesiad ariannol gan yr awdurdod lleol i benderfynu faint ddylech chi ei dalu tuag at eich gofal personol a'ch llety os ydych mewn cartref nyrsio.

Os ydych yn byw mewn **cartref preswyl** ac angen rhywfaint o ofal nyrsio, caiff hwnnw ei ddarparu gan y GIG drwy'r gwasanaeth nyrsio cymunedol.

## Beth yw Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG?

Ni all awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau clinigol oherwydd bod y GIG yn gyfrifol am unrhyw ofal y mae'n rhaid i nyrs gofrestredig ei ddarparu. Yn achos pobl mewn cartrefi gofal sydd â gwasanaethau nyrsio, bydd y nyrsys fel rheol yn cael eu cyflogi gan y cartref gofal ei hun a bydd y GIG yn talu cost y gofal nyrsio ar gyfer y rhai y mae ei angen arnynt.

Bydd nyrsys cofrestredig yn cynnig sawl agwedd ar ofal. Fel arfer bydd y rhai sydd angen gofal gan nyrs gofrestredig yn cael rhai o'r canlynol:

- Goruchwylio neu fonitro'r anghenion gofal.
- Cynllunio'r gofal, adolygu eich anghenion a gwneud newidiadau i'r cynllun gofal.
- Clustnodi problemau iechyd posibl a mynd i'r afael â hwy, er enghraifft drwy gysylltu â gweithwyr proffesiynol gofal iechyd megis meddygon, therapyddion ac ati.
- Monitro'ch meddyginiaeth.

## Pwy sy’n gymwys i gael Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG?

Dylech gael Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG:

- Os ydych yn byw mewn cartref gofal sydd â gwasanaethau nyrsio ac os nad ydych yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus ond eich bod wedi’ch asesu yn rhywun y mae angen gwasanaethau nyrs gofrestredig arno;
- Os nad ydych yn cael gofal nyrsio cofrestredig drwy ryw ddull arall, ee gan nyrsys ardal.

## Beth alla i ei wneud os nad wyf yn fodlon â chanlyniad yr asesiad?

Mae gennych hawl i ofyn i’r Bwrdd Iechyd Lleol adolygu’r penderfyniad a wnaed ynghylch a ydych yn gymwys ai peidio i gael Gofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir.

Os mai canlyniad yr asesiad oedd nad ydych yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus ac os ydych yn anghytuno â hyn, y cam cyntaf yw trafod y mater gyda’r gweithwyr proffesiynol gofal iechyd sy’n gofalu amdanoch. Dylai’r GIG weithio’n agos gyda chi a’r tîm amlddisgyblaethol i ddatrys y mater yn anffurfiol ac i

wneud yn siŵr fod yr holl asesiadau a gweithdrefnau angenrheidiol wedi'u cyflawni'n briodol.

Gallwch ofyn am adolygiad annibynnol o'r penderfyniad os nad ydych yn hapus â'r canlynol:

- Y weithdrefn a ddilynwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol wrth ddod i benderfyniad ynghylch a ydych yn gymwys ai peidio i gael Gofal Iechyd Parhaus.
- Y modd y cafodd eich prif anghenion iechyd eu hystyried.

Os bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn cadw at ei benderfyniad gwreiddiol a chithau'n awyddus i fynd â'r mater ymhellach, gallwch ofyn am gael gwneud cwyn drwy weithdrefn gwyno'r GIG. Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch gysylltu â'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Gallwch gael mwy o fanylion gan eich Bwrdd Iechyd Lleol.

Os oes unrhyw agwedd arall ar ofal y GIG yr ydych yn anfodlon â hi, gallwch ofyn am ddefnyddio gweithdrefn gwyno y GIG.

## Lle galla i gael mwy o wybodaeth am Ofal Iechyd Parhaus y GIG neu Ofal Nyrsio a Ariennir?

Gallwch ofyn i'r meddyg neu'r nyrs sy'n gofalu amdanoch. Gallwch hefyd gysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eich ardal.

I gael manylion am y Byrddau Iechyd Lleol ewch i:

**http://www.wales.nhs.uk/directory.cfm**

I gael gwybodaeth am Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ewch i:

**www.ombudsman-wales.org**

Mae fersiynau Braille a sain o'r daflen hon ar gael oddi wrth eich Bwrdd Iechyd Lleol.

© Hawlfraint y Goron Awst 2010 WAG 10-03339 F2441011